Is-adran Môr a Physgodfeydd /
Marine & Fisheries Division

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG44002**

Tachwedd 2021

Annwyl Randdeiliaid

**AMODAU TRWYDDED CREGYN MOCH ARFAETHEDIG 2022-23 (YN AMODOL AR GYMERADWYAETH GWEINIDOGOL I ORCHYMYN TRWYDDED BYSGOTA CREGYN MOCH (CYMRU) 2021)**

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno mesurau rheoli pysgodfeydd cregyn moch newydd ym mharth Cymru.

Mewn ymateb i bryderon ynghylch gorddefnyddio cregyn moch, diben y mesurau hyn yw gwarchod stociau cregyn moch a sicrhau cynaliadwyedd y bysgodfa.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog, rydym yn rhagweld y bydd Gorchymyn Trwyddedau Pysgota Cregyn Moch (Cymru) 2021 yn dod i rym ym mis Rhagfyr 2021.

O ganlyniad, bydd y mesurau canlynol yn berthnasol i bob cwch pysgota trwyddedig yn y DU a thramor sy'n dymuno mynd â chregyn moch gyda photiau ym mharth Cymru:

• Cynllun awdurdodi **(trwydded gydag amodau (gweler isod))** ar gyfer pob cwch sy'n mynd â photiau ym mharth Cymru,

• **Terfyn dal blynyddol (ACL)** ar gyfanswm y cregyn moch y gellir ei gymryd o barth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth, a

• **Terfyn dal misol hyblyg (MCL)** ar gyfer cychod awdurdodedig.

• Ffi drwydded (2023 ymlaen).

Unwaith y bydd y Gorchymyn wedi'i wneud, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y dyddiad y disgwylir i'r cyfnod cais am drwydded cyntaf agor ym mis Rhagfyr eleni. Rhoddir trwyddedau i bawb sy'n gwneud cais yn ystod y cyfnod ymgeisio cyn i gyfnod y drwydded gyntaf ddechrau ar 1 Mawrth 2022.

Mae rhagor o wybodaeth yn y ddolen isod i ymgynghoriad 2020.

https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-09/dogfen-ymgynghori-cregyn-moch.pdf

Felly, rwy'n ysgrifennu i ofyn am eich sylwadau ar yr amodau trwydded arfaethedig canlynol:

**AMODAU TRWYDDED CREGYN MOCH ARFAETHEDIG AR GYFER Y CYFNOD CANIATÁU SY'N DECHRAU YM MIS MAWRTH 2022. (YN AMODOL AR GYMERADWYAETH GWEINIDOGOL I'R GORCHYMYN UCHOD)**

1. Mae'r drwydded hon yn ddilys o 00:01 ar 1 Mawrth 2022 tan 23:59 ar 28 Chwefror 2023. (Arfaethedig)

2. Rhaid i'r gweithgareddau a awdurdodir gan y drwydded hon gael eu cyflawni yn unol â darpariaethau Gorchymyn Trwydded Bysgota Cregyn Moch (Cymru) 2021.

3. Mae'r drwydded hon ond yn rhoi'r hawl i ddeiliad y drwydded (y person awdurdodedig) a/neu sgip/meistr cychod ar ran y perchennog(ion)/siartrwr(wyr) a enwir yn y drwydded hon i gymryd cregyn moch (*Buccinum undatum*) gyda photiau gan ddefnyddio'r llestr a enwir yn y drwydded hon.

4. Ni ellir trosglwyddo'r drwydded hon.

5. Mae deiliad y drwydded yn gyfrifol am wirio a throsglwyddo i sgip/meistr y llong a chriw y Terfyn Dal Misol hyblyg (MCL) pan fydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru bob mis.

6. Ni ddylid dal mwy na'r Terfyn Dal Misol (MCL).

7. Rhaid i ddeiliad y drwydded wneud adroddiad llawn a chywir ("Manylion Daliadau") o'r holl Gregyn Moch (*Buccinum undatum*) wedi'u pysgota a'u cymryd gyda photiau o barth Cymru erbyn 23:59 ar ddiwrnod olaf pob mis, hyd yn oed os nad ydynt wedi pysgota.

8. Rhaid cwblhau'r Manylion Daliadau gan ddefnyddio'r ddolen a ddarperir ar Llyw.cymru. Ar gyfer pob diwrnod, rhaid i hyn gynnwys: pwysau'r ddalfa a gedwir (Kg), nifer y potiau a godwyd, amser socian (diwrnodau) a lleoliad gweithgarwch pysgota (Is-Betryal ICES).

9. Os bydd llong yn pysgota y tu mewn i barth Cymru a'r tu allan i barth Cymru yn ystod un daith bysgota, rhaid cynnwys yr holl gregyn moch a gymerwyd ar y daith honno yn y Manylion Daliadau a chaiff ei dynnu o Derfyn Dal Misol (MCL) y cychod.

10. Rhaid i ddeiliad y drwydded ond cadw a glanio cregyn moch cyfan yn eu cregyn.

11. Rhaid i gopi o'r drwydded hon (papur neu electronig) fod ar gael i'w harchwilio gan Swyddogion Gorfodi Morol ar y cwch a enwir.

12. Rhaid i ddeiliad y drwydded hysbysu Gweinidogion Cymru gan ddefnyddio'r ffurflen "Trwydded Cregyn Moch - Newid Cwch" gan ddefnyddio'r ddolen a ddarperir ar Llyw.cymru os bydd y manylion sy'n ymwneud â'r cwch a enwir a nodwyd yn y drwydded yn newid ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y drwydded.

13. Rhaid i ddeiliad y drwydded gydymffurfio ag unrhyw atal dros dro o hysbysiadau pysgota ym mharth Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw amodau pellach sy'n ofynnol gan yr Asesiad Rheoliadol Cynefinoedd a gynhelir gan ystyried Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 OS 2017 Rhif 1012 a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau ar y Môr 2017 OS 2017 Rhif 1013. Rhaid cynnwys unrhyw amodau sy'n ofynnol o ganlyniad i'r asesiad hwn ac ni chynigir ymgynghoriad arnynt.

Noder: Er na fydd angen system monitro cychod yn y cyfnod caniatáu cyntaf ar gyfer pysgota am gregyn moch, mae'n bosibl y bydd angen un o dan ddeddfwriaeth arall sy'n cael ei hystyried ar gyfer cregyn moch.

**Sut i ymateb**

Os hoffech ymateb, croesewir ymateb ar unrhyw ffurf ysgrifenedig a gellir ei e-bostio atom yn MarineandFisheries@llyw.cymru neu ei anfon i'r cyfeiriad post a roddir isod. Os ydych yn e-bostio, dylech gynnwys yr ymadrodd "Amodau Trwydded Cregyn Moch Arfaethedig 2022-23" yn y blwch pwnc.

Derbynnir ymatebion am gyfnod o **bythefnos**, a rhaid iddynt gyrraedd erbyn **dydd Sul 5 Rhagfyr 2021.**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu ofyn am gopi papur o'r ymgynghoriad neu wybodaeth bellach am gynnwys yr ymgynghoriad ei hun, cysylltwch ag adran y Môr a Physgodfeydd gan ddefnyddio'r manylion a nodir isod.

Yn gywir

Mark Tilling

Polisi Pysgodfeydd

Swyddfa Pysgodfeydd

Suite 3, Cedar Court

Haven's Head Business Park

Aberdaugleddau

Sir Benfro

Cymru

SA73 3LS

Yr Is-adran y Môr a Physgodfeydd

Ffôn: 03000 254803

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon, yn unol â'u pwerau statudol, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn, neu wrth gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- i ofyn (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael ei 'ddileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i ofyn inni drosglwyddo'ch data i gorff arall
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu er mwyn arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/